‘GWNEUD TREFTADAETH YN BWNC O BWYS’

STRATEGAETH TREFTADAETH AR GYFER BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Drafft Terfynol

Medi 2005

STRATEGAETH TREFTADAETH BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

1. Cyflwyniad

1.1 Pam fod angen Strategaeth Treftadaeth?

Nod y ddogfen hon yw dangos sut a pham bo'n treftadaeth yn bwysig ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'n treftadaeth yn rhan o'n ffordd o fyw – mae'n cyffwrdd pawb ac yn cyfrannu at ein hansawdd bywyd. Mae'n ein helpu i ddeall o le mae'n cymunedau wedi dod ac i ennyn dealltwriaeth a pharch tuag at ein cymunedau amrywiol yn yr 21ain ganrif.

Mae ein strategaeth treftadaeth yn ymwneud â phob agwedd ar weithgarwch dynol gan gynnwys ein heffaith ar y dirwedd naturiol, ond nid yw'n cwmpasu'r amgylchedd naturiol ei hun a fydd yn rhan o strategaeth gyflenwol sy'n mynd i'r afael â materion amgylcheddol a chefn gwlad ehangach.

Nid yw treftadaeth yn ymwneud â chadw'r gorffennol yn unig, ond sut y gall gyfrannu at y presennol hefyd. Mae'n amlinellu'r materion trosfwaol sy'n wynebu'n treftadaeth ac agenda o feysydd blaenoriaethol y mae angen i ni fynd i'r afael â nhw dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'n strategaeth ar gyfer y fwrdeistref sirol gyfan ac i bawb sy'n gysylltiedig â'r sector treftadaeth, p'un a yw hynny yn y gymuned, o fewn y Cyngor neu o fewn nifer o sefydliadau eraill sy'n gysylltiedig â threftadaeth ein hardal.

Mae angen i'n strategaeth treftadaeth gyfrannu at yr hyn sy'n bwysig i'n cymunedau. Yn ein Strategaeth Gymunedol, ***Wrecsam o'r Newydd***, mae'r Cyngor a sefydliadau partner sy'n gweithio yn y fwrdeistref sirol wedi amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu Wrecsam a sut byddant yn gweithio tuag at weledigaeth 'I wella ansawdd bywyd i bawb ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam'.

Mae'r Strategaeth Gymunedol yn cael ei thywys gan nifer o egwyddorion trawstoriadol sydd hefyd wrth wraidd y strategaeth treftadaeth hon. Y rhain yw:

- Cynaladwyedd
- Tegwch a chydraddoldeb
- Dinasyddiaeth
- Cynhwysiad cymdeithasol
- Dwyieithrwydd
- Partneriaeth
- Diwylliant a threftadaeth Gymreig

2. Treftadaeth – Mwy na'r Gorffennol

2.1 Treftadaeth gyfoethog Wrecsam

Beth ydym yn ei olygu wrth ddweud treftadaeth yn Wrecsam? Mae treftadaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gyfoethog ac yn amrywiol – o olion fflint Mesolithig ein cyndadau hela a chasglu i ddyfeisiadau diwydiannol y 18fed a'r 19eg ganrif. Mae dros 10,000 o flynyddoedd o fodolaeth ddynol yn yr ardal hon o ororau Cymru wedi gadael marc annileadwy ar y dirwedd o'n cwmpas, ond mae gweithgarwch dynol yn yr ardal hefyd wedi'i ddylanwadu gan yr amgylchedd naturiol.

Mae gan Fwrdeistref Sirol Wrecsam dirwedd amrywiol dros ben ar hyd ei 500 cilomedr sgwâr, sy'n amrywio o Fynyddoedd y Berwyn yn y de orllewin i orlifdir isel a gwastad yr afon Dyfrdwy yn y gogledd ddwyrain. Mae'r ardal gyfan, heblaw am Fenn's Moss ar ffin y de ddwyrain, yn ffurfio rhan o ddalgylch yr afon Dyfrdwy, ac mae un o'i phrif lednentydd, yr afon Ceiriog, yn codi yn y fwrdeistref sirol. Mae dylanwad arferion ffermio Seisnig yn amlwg yn yr iseldiroedd, ond mae gan Ddyffryn Ceiriog dirwedd wledig Gymreig yn bennaf, ac mae gan y cyn bentrefi mwyngloddio ar ymyl yr iseldiroedd a'r uwchdiroedd gymeriad Cymreig cryf hefyd. Gellir ei disgrifio fel yr ardal lle mae gwastadoedd Lloegr yn cyfarfod â mynyddoedd Cymru a lle fu'n rhaid i'r llwybrau cyfathrebu a oedd wedi symud yn weddol rhwydd o'r dwyrain chwilio am lwybrau drwy'r mynyddoedd tua'r gorllewin. Bu'r ardal hefyd yn llwybr gogledd-de pwysig rhwng Caer a'r canolfannau rhanbarthol yn y de - tref Wrecsam ei hun, Croesoswallt, pen mordwyaeth yr Hafren yn y Trallwng a'r Amwythig.

Daeth y groesffordd gyfathrebu hon â llawer o'r amrywiaeth ddiwylliannol sy'n nodweddu'r fwrdeistref sirol. Mae'n rhanbarth ffiniol, ac mae Wrecsam ei hun yn dref ffiniol, sy'n gwbl ymwybodol o'i lleoliad fel man cyfarfod rhwng y diwylliannau Cymreig i'r gorllewin, a'r diwylliannau Seisnig i'r dwyrain. Mae gan gymunedau amaethyddol rhannau dwyreiniol yr ardal gysylltiadau hirsefydlog â Sir Amwythig a Sir Gaer. Mae'r trefi a'r pentrefi a ymddangosodd trwy ddatblygiad diwydiannol wedi tueddu i feithrin cysylltiadau cyfathrebu ag ardaloedd diwydiannol Glannau Merswy a Manceinion. Er hynny, mae rhai cymunedau, trefol a gwledig, diwydiannol ac amaethyddol, wedi cadw ymdeimlad cryf o'u hunaniaeth eu hunain, yn enwedig yr ardaloedd hynny lle ceir Cymry Cymraeg megis Rhosllannerchrugog a Dyffryn Ceiriog.

Dechreuodd y bobl gynharaf i fyw yma ar y broses hir o ddatgoedwigo'r uwchdiroedd gan greu'r rhostiroedd agored sy'n gyfarwydd erbyn hyn, tra bo'r ardaloedd is yn parhau i adlewyrchu dulliau ffermio cynnar - megis y patrymau nodedig ar y caeau a ffiniau'r gororau a Dyffryn Ceiriog; neu'r systemau grwn a rhych canoloesol prin sy'n parhau i fod yn y Maelor. Y ffermio a'r amaethyddiaeth leol a gychwynnodd rôl allweddol Wrecsam fel tref farchnad, sy'n parhau hyd heddiw.

Bu i adnoddau naturiol yr ardal annog gweithgarwch diwydiannol cynnar - mwyngloddio, chwarela a gwaith dur. Mae'r rhain wedi gadael etifeddiaeth ddiriaethol o adeiladau a strwythurau eraill, newidiadau parhaol i'r dirwedd naturiol lle y chwarelwyd llechweddau neu fryniau artiffisial newydd a grëwyd gan gynnyrch gwastraff a rhwydwaith cymhleth o ffyrdd, camlesi a rheilffyrdd cysylltiedig. Effeithiodd y chwyldro diwydiannol yn fawr ar anheddiad a symudiad pobl i mewn i'r sir ac oddi mewn iddi, gyda phentrefi'n tyfu i letya'r gweithluoedd a symudodd y diwydiannau yn eu blaenau.

Dros amser, mae effaith gronnus y chwyldro diwydiannol, Deddfau Addysg y 19eg ganrif, y Dirwasgiad a dau ryfel byd wedi arwain ar newid graddol o ardal a oedd yn un Gymraeg yn bennaf i un lle mai Saesneg bellach yw'r iaith fwyafrifol, gyda chrynodiadau gwasgaredig o gymunedau Cymraeg, yn enwedig yn Rhosllannerchrugog, Dyffryn Ceiriog a thref Wrecsam.

Mae sawl agwedd o'r dreftadaeth yn adlewyrchu natur ffindirol yr ardal – yr angen i ddarlunio tiriogaeth yn ogystal â meithrin cysylltiadau masnachu manteisiol. Mae olion gweladwy'n cynnwys cloddweithiau anferth Clawdd Offa a Chlawdd Wat, caerau megis y cestyll yn y Waun a Holt a chysylltiadau cludiant â'r canolfannau diwydiannol a masnachol cyfagos yn Lloegr. Mae llif y bobl i mewn a thrwy'r ardal yn dyddio'n ôl i'r cyfnodau cynharaf, ond mae'n gysylltiedig yn arbennig â datblygiadau'r 18fed a'r 19eg ganrif, ac yn parhau hyd heddiw.

Cyfunwyd yr holl ffactorau hyn i roi ymdeimlad o hunaniaeth a lle yn y byd i gymunedau presennol, ynghyd â thystiolaeth o'r ffaith fod y cyhoedd yn gyffredinol yn defnyddio ymadroddion fel y canlynol wrth ddiffinio eu treftadaeth:

- **"pethau sy'n rhoi ymdeimlad o le"**
- **"pethau rydym am eu cadw"**
- **"pethau sy'n arwyddocaol i'n cymunedau"**

Ein treftadaeth yw cynnyrch y rhyngweithiad hirsefydlog hwn rhwng yr amgylchedd naturiol ac ymdrechion dynol, ac adlewyrchir hyn ym mhrif themâu treftadaeth y sir.

Mae'r **dreftadaeth ddiwydiannol** yn arbennig o amlwg gan ei bod yn fwy diweddar ac yn fwy diriaethol – ond mae'n fwy na'r adeiladau a'r tomenni sorod sydd wedi goroesi a rheilffyrdd segur y diwydiannau eu hunain. Mae hefyd wedi gadael etifeddiaeth glir ym mhatrwm anheddiad y pentrefi trefol, y mae llawer ohonynt wedi parhau'n gymunedau amlwg ymhell ar ôl dirywiad y datblygiad diwydiannol gwreiddiol a'u creodd.

Roedd y rhyngweithiad diwylliannol rhwng yr aneddiadau hŷn a'r poblogaethau mewnfudol a oedd yn nodweddiadol o'r chwyldro diwydiannol yn un cam yn unig yn hanes hir yr ardal o ryngweithiad diwylliannol a masnachol. Mae'n adlewyrchu nodweddion yr ardal fel **ffindir a chroesffordd fasnachu** sydd hefyd wedi esbonio nifer o'r cloddweithiau a'r strwythurau amlwg - o gloddiau Wat ac Offa ac amddiffynfeydd milwrol megis y cestyll, i isadeiledd masnachol y camlesi a'r rheilffyrdd. Mae'r pwysau ar yr iaith Gymraeg a thraddodiadau Cymreig diwylliannol, eu goroesiad a'u hadfywiad hefyd yn rhan o dreftadaeth y ffindir hwn.

Nid yn unig yw'n **tirweddau** lleol wedi'u ffurfio gan ddatblygiad diwydiannol y 18fed a'r 19eg ganrif, ond maent hefyd wedi'u heffeithio gan y gwahanol systemau amaethyddol a fabwysiadwyd ar draws iseldiroedd ac ucheldiroedd y sir. Mae'r arferion hyn wedi dylanwadu'n sylweddol ar batrymau caeau ac aneddiadau, yn ogystal ag adlewyrchu'r rhyngweithiad â'r amgylchedd naturiol a'r ymdrechion i'w reoli.

Mae'r amlygrwydd hwn yng nghymunedau'r sir yn cael ei ddal drwy atgofion ac ymchwiliadau grwpiau ac unigolion – mae prosiectau **hanes cymunedol a llafar** yn helpu i gadw atgofion o wneuthuriad cymdeithasol yr ardal a bywydau gwaith a gweithgareddau cymunedol y bobl leol yn fyw. Mae'r wybodaeth gyfunol hon am y

gorffennol yn rhan hanfodol o'n treftadaeth ac yn ein galluogi i roi ystyr newydd i'r gweddillion strwythurol sych a difywyd a'u dod yn fyw i genedlaethau'r dyfodol.

Erbyn heddiw, mae crynhoad mwyaf o boblogaeth y fwrdeistref sirol, sef 128,500 o bobl, yn byw yn Wrecsam, y dref fwyaf yng ngogledd Cymru. Fodd bynnag, mae poblogaeth sylweddol wedi'i gwasgaru ar draws y pentrefi trefol nodedig i orllewin Wrecsam a'r amgylcheddau gwledig amrywiol sy'n adlewyrchu lleoliad ffiniol y fwrdeistref sirol rhwng bryniau canolbarth Cymru a Dyffryn Dyfrdwy.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, dirywiodd y diwydiannau gwneud dur, mwyngloddio a'r gweithgareddau diwydiannol eraill y mae Wrecsam wedi dibynnu arnynt ers dwy ganrif. Mae wedi wynebu'r her hon drwy ddatblygu diwydiannau cyfoes newydd a thrwy ddenu pobl, busnesau a swyddi i'r fwrdeistref sirol.

Erbyn hyn mae gan Wrecsam broffil oedran iau na'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yng Nghymru, ond nifer cynyddol o drigolion hen iawn. Yn gyffredinol, mae Wrecsam yn ardal ffyniannus, ond mae ganddi bocedi o amddifadedd, yn arbennig o fewn tair ardal a ddynodwyd fel ardaloedd 'Cymunedau yn Gyntaf'. Mae 14% o'r boblogaeth yn Gymry Cymraeg. Mae dros ddau draean o bobl leol yn ystyried eu hunain yn Gymry.

2.2 Mae treftadaeth yn cynnwys pob un ohonom

Adlewyrchir amrywiaeth y dreftadaeth leol yn amrywiaeth y sefydliadau sy'n gysylltiedig â'i chadw, ei ddehongli a'i hyrwyddo, ac mae nifer o'r rhain wedi'i lleoli yn y gymuned.

2.2.1 Y Cyngor a'n treftadaeth

Mae gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol ddyletswydd arwyddocaol o ran cadw, hyrwyddo a darparu mynediad at ein treftadaeth.

Mae **Gwasanaeth Treftadaeth y Fwrdeistref Sirol** yn uniongyrchol gyfrifol am ddarparu ystod o amgueddfeydd, archifau, astudiaethau lleol a gwasanaethau archeolegol. Mae'r Cyngor yn berchen ar dair amgueddfa gofrestredig, ac yn gyfrifol am eu gweithredu, sef: Amgueddfa'r Fwrdeistref Sirol, Canolfan Dreftadaeth a Gweithfeydd Haearn y Bers a Phyllau Plwm y Mwynglawdd. Mae asedau treftadaeth eraill y Cyngor yn cynnwys Castell Holt, Peiriandy Penrhos, Gwaith Ben Pwll a Thŷ Weindio'r Bers.

Mae Gwasanaeth Amgueddfeydd y Fwrdeistref Sirol yn cael ac yn cynnal a chadw casgliadau sydd â thuedd diwydiannol a chymdeithasol hanesyddol yn bennaf. Mae'n darparu mynediad cyhoeddus at y casgliadau hyn trwy amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys rhaglen o arddangosfeydd dros dro sy'n seiliedig ar dreftadaeth a digwyddiadau cysylltiedig trwy gydol y flwyddyn, ac mae ei raglen addysg yn cefnogi anghenion dysgu gydol oes ysgolion a'r gymuned ehangach.

Mae hefyd yn cyflawni rôl ehangach, er enghraifft trwy ei gysylltiadau datblygol ag Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a thrwy gynnal Casgliad Pêl-droed Cymru. Mae arddangosiadau sy'n seiliedig ar themâu o ddiddordeb rhanbarthol neu genedlaethol yn rhoi mynediad i bobl leol at gasgliadau y gellir ond eu gweld fel rheol mewn amgueddfeydd ac orielau yn bellach oddi cartref.

Mae'r Archifau Sirol a'r Gwasanaeth Astudiaethau Lleol hefyd wedi'u lleoli yn Amgueddfa'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r Gwasanaeth Archifau wedi bod yn casglu deunyddiau cynradd ers 1996 ac mae'r Gwasanaeth Astudiaethau Lleol yn casglu deunyddiau cyhoeddedig ar bynciau hanes ac achyddiaeth leol. Darperir mynediad cyhoeddus i'r casgliadau hyn drwy Ganolfan A.N Palmer (ystafell chwilio sydd wedi'i lleoli yn Amgueddfa'r Fwrdeistref Sirol). Mae cynghorau cyfagos hefyd yn cadw archifau lleol perthnasol o ganlyniad i ddadgyfuniad y gwasanaethau a ddarparwyd gan gyn Gyngor Sir Clwyd. Mae natur wasgaredig y casgliadau hyn a'r gwahanol drefnau ar gyfer cael mynediad at y deunyddiau hyn wedi creu rhai trafferthion wrth geisio sicrhau mynediad cyhoeddus eang a chyfleus i'r rhan hon o'n treftadaeth.

Mae Archeolegydd y Sir yn cydweithio'n agos ag Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys i fonitro datblygiadau cynllunio o ran eu heffaith ar archeoleg. Gall hyn gynnwys ysgrifennu cyfarwyddiadau i gontractwyr archeolegol a chwblhau eu gwaith maes eu hunain o bryd i'w gilydd. Mae Archeolegydd y Sir hefyd yn goruchwylio'r gwaith o gadw a dehongli cofebion sydd ym mherchnogaeth y Cyngor ac yn ennyn diddordeb y gymuned leol yn ei threftadaeth archeolegol e.e. trefnu'r Clwb Archaeoleg.

Mae adrannau eraill y Cyngor hefyd yn gysylltiedig â threftadaeth, neu'n effeithio arni - mae'r **Adran Gynllunio** yn gyfrifol am gadw'r dreftadaeth adeiledig fel rhan o'r broses gynllunio ac yn cyflogi arbenigwyr mewn cadw adeiladau i gefnogi'r gwaith hwn. Gyda chymorth grant gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, mae'r adran wedi creu system fapio tirweddau (LANDMAP), ac mae un haen o'r system hon yn arbennig ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Cynhaliwyd 'Arolwg o Risgiau Adeiladau' yn 2002, a chymeradwywyd strategaeth yn 2004 i nodi a thargedu'r adeiladau hynny yn y fwrdeistref sirol y credir eu bod mewn perygl o esgeulustod a dadfeiliad.

Er nad oes ganddynt unrhyw gyfrifoldebau uniongyrchol am ei chadw, ei chynnal na'i hymddangosiad, mae gan yr **Adran Addysg** a'r **Adran Datblygiad Economaidd** gysylltiadau agos iawn â threftadaeth mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd, yr olaf yn arbennig drwy ei chysylltiadau ag adfywiad a thwristiaeth. Mae'r Cyngor yn sicrhau bod grantiau bychain ar gael ar gyfer prosiectau cymunedol drwy Gronfa Deddfau Eglwysi Cymru.

2.2.2 Sefydliadau treftadaeth rhanbarthol a chenedlaethol

Rheolir rhai o'r safleoedd amlycaf yn y sir gan sefydliadau cenedlaethol, er enghraifft yr **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** sy'n rheoli ac yn berchen ar Blas Erddig a Chastell y Waun. Mae'r ddau'n denu nifer sylweddol o ymwelwyr ac yn cynnig rhaglenni addysg eang sy'n dod â hanesion amrywiol yr adeiladau hyn yn fyw. Mae traphont ddŵr Pontcysyllte, sy'n dathlu ei deucanmlwyddiant yn 2005, a Basn Trefor sydd gerllaw, yng ngofal **Dyfrffyrdd Prydain**. Mae'r draphont ddŵr eisoes ar y rhestr ymgeisiau i'w dynodi fel un o Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO, ac mae CBSW yn arwain y fenter hon.

2.2.3 Treftadaeth sy'n seiliedig yn y gymuned

Daw unigolion hefyd yn fwy cysylltiedig â'n treftadaeth trwy sefydliadau megis **'Cyfeillion Amgueddfeydd Wrecsam'** neu drwy ymuno ag un o'r nifer **o grwpiau**

hanes lleol cymunedol, er enghraifft yn Holt, Llay, Y Waun, Cefn Mawr a Choedpoeth. Mae'r grwpiau hyn yn cyfranogi'n weithredol i nifer o brosiectau treftadaeth – trwy ymchwilio a chyflwyno arddangosfeydd, cofnodi hanes llafar, casglu a chyhoeddi hen ffotograffau ac atgofion cymunedol a gweithio gydag eraill i ddiogelu a chynnal adeiladau a safleoedd hanesyddol arwyddocaol.

Mae clwb sefydledig ar gyfer **defnyddwyr datgelwyr metel** hefyd, sydd wedi'i leoli yn Wrecsam ac sy'n gweithio'n agos â Gwasanaeth Treftadaeth y Sir. Er enghraifft, mae'r cydweithio llwyddiannus hwn wedi cynyddu ein gwybodaeth am anheddiad cynharach yn bennaf drwy ddarganfod arteffactau o'r Oes Efydd.

Mae **Cymdeithas Ddinesig Ardal Wrecsam** yn ymwneud â'r amgylchedd adeiledig ac yn ceisio cofnodi a hyrwyddo pwysigrwydd pensaernïol a hanesyddol adeiladau unigol o fewn eu lleoliad cyffredinol.

Mae **Neuadd Goffa Ceiriog** (elusen gofrestredig) yn gyfleuster cymunedol pwysig sy'n cynnwys amgueddfa annibynnol. Mae'r amgueddfa hon a adnewyddwyd ac a ymestynnwyd yn ddiweddar yn gartref i gasgliad o ddeunyddiau diwylliannol Cymreig sy'n cyfeirio'n arbennig at Ddyffryn Ceiriog. Mae ganddi berthynas waith hirsefydlog a chydfuddiannol â Gwasanaethau Treftadaeth CBSW. Yn ddiweddar, mae hyn wedi cynnwys cymorth ymarferol mewn perthynas â gweithrediad llwyddiannus y Neuadd o brosiect datblygu a gefnogwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Hefyd yn Nyffryn Ceiriog, mae **Grŵp Tramffordd Dyffryn y Glyn** yn ceisio cofnodi a chadw hanes yr agwedd arbennig hon ar ein treftadaeth leol ac yn arbennig rôl y dramffordd ym mywyd gwaith a chymdeithasol cymunedau'r dyffryn.

Bu'r eglwysi a'r capeli'n rhan bwysig o'r cymunedau lleol erioed, gan ymgorffori mwy na threftadaeth grefyddol yr ardal yn unig (er enghraifft, mae Eglwys Blwyf San Silyn ac Eglwys Gadeiriol Babyddol y Santes Fair yn dirnodau nodedig). Mae'r rhain yn awr yn fwy hygyrch drwy fentrau megis y **Rhwydwaith Eglwysi Agored**. Mae'r fenter hon yn enghraifft o rôl Gogledd Gororau Cymru wrth ddarparu prosiectau treftadaeth sy'n seiliedig yn y gymuned.

Mae'n berffaith amlwg fod nifer o brosiectau treftadaeth eisoes wedi'u creu o ganlyniad i gydweithrediad rhwng sefydliadau proffesiynol a grwpiau cymunedol, ac mae'r ymagwedd bartneriaeth hon yn darparu sail gadarn ar gyfer cydnabyddiaeth, cadwraeth a mwynhad ein treftadaeth ar ei holl ffurfiau yn y dyfodol.

2.2.4 Athrofeydd addysgol

Mae'r athrofeydd addysg uwch a phellach lleol – **NEWI** a **Choleg Iâl** – hefyd yn chwarae rhan arwyddocaol wrth ddarparu cyrsiau a hyfforddiant i sicrhau dealltwriaeth a gwerthfawrogiad ehangach o'n treftadaeth ac i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer prosiectau adfer a chynnal a chadw.

Mae **ysgolion** yn cyflwyno disgyblion i'w treftadaeth leol trwy'r Cwricwlwm Cenedlaethol, yn aml trwy ymweld ag amgueddfa neu safle treftadaeth lleol yn uniongyrchol, neu trwy ymchwilio i hanes eu cymuned leol.

Prifysgol y Plant Wrecsam yw'r cyntaf o'i math yng Nghymru, ac mae'n cydnabod plant sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol arferol. Gall yr ystod eang o weithgareddau sy'n seiliedig ar dreftadaeth a gyflwynir ar draws y fwrdeistref sirol ddarparu modylau addas i'w cofrestru dan y cynllun, gan estyn cyfleoedd i blant gael eu hachredu am ddysgu y tu allan i fframwaith ffurfiol y cwricwlwm.

Darperir rhaglenni dysgu am dreftadaeth sy'n seiliedig yn y gymuned gan ddarprwyr **addysg i oedolion** megis WEA, ac i bobl ifanc drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid.

2.3 Rhan o'r darlun ehangach

Nid yw Bwrdeistref Sirol Wrecsam na'n Strategaeth Treftadaeth yn bodoli ar eu pennau eu hunain. Bydd angen hefyd i'r strategaeth gefnogi polisïau cyrff cenedlaethol a rhanbarthol pwysig sy'n gyfrifol am ein treftadaeth adeiledig, ein hamgylchedd, datblygiad economaidd, adfywiad gwledig a threfol a thwristiaeth.

Ar lefel genedlaethol, er nad yw dogfen Llywodraeth y Cynulliad, *Cymru: Gwlad Well*, yn canolbwyntio ar unrhyw faterion penodol sy'n ymwneud â threftadaeth yn ei blaenoriaethau polisi, gall y Strategaeth Treftadaeth gyfrannu at weledigaeth gyffredinol y ddogfen i:

- Ddatblygu economi amrywiol o werth uchel
- Sicrhau gwell ddyfodol drwy addysg a dysgu gydol oes
- Atgyfnerthu hunaniaeth ddiwylliannol Cymru i helpu i greu gwlad ddwyieithog
- Sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn cefnogi balchder cymunedol a chynaladwyedd

Bydd y Strategaeth Treftadaeth hefyd yn adlewyrchu rhai o ddogfennau polisi allweddol eraill y Cynulliad, er enghraifft:

- Mae *Strategaeth Diwylliant Cymru'n* pwysleisio pwysigrwydd ein tirweddau hanesyddol a'n treftadaeth ddiwydiannol ynghyd â rôl amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth fel mannau cymdeithasol sy'n cefnogi addysg a dysgu teuluol.
- Mae *Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol Cymru'n* amlygu unigrywiaeth iaith, hanes a ffordd o fyw'r Cymry fel asedau twristiaeth nodedig a all ddarparu'r profiad dilys sydd ei eisiau ar ymwelwyr deallus.

Bydd y Strategaeth Treftadaeth hefyd yn adlewyrchu a chefnogi strategaethau a rhaglenni cyrff rhanbarthol a chenedlaethol sy'n ymwneud â threftadaeth yn uniongyrchol. Er enghraifft:

- **CyMAL**, sef prif uned gosod polisïau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y sector amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd, ac sydd â'r rôl gyffredinol o "alluogi amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol i fodloni amcanion Llywodraeth y Cynulliad drwy ddarparu gwasanaethau sy'n cefnogi ac yn datblygu pobl yn eu cymunedau". Mae CyMAL yn gweithredu cynllun cymorth grant a all ddarparu nawdd i gefnogi prosiectau sy'n cyfrannu at gyrhaeddiad ei amcanion cenedlaethol yn lleol.

- **CADW**, sydd â'r rôl o "ddiogelu, cadw a hyrwyddo gwerthfawrogiad o dreftadaeth adeiledig yng Nghymru". Mae saith amcan corfforedig Cadw'n canolbwyntio ar gynnal a chadw'r adeiladau, y strwythurau a'r henebion hynny sydd wedi'u diogelu'n statudol (adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig), ond maent hefyd yn cydnabod yr angen i gyfarwyddo ac addysgu a hyrwyddo dealltwriaeth a gwerthfawrogiad ehangach o dreftadaeth adeiledig yng Nghymru. Gall CADW hefyd roi grantiau ariannol i helpu â phrosiectau adfer penodol neu brosiectau ehangach sy'n seiliedig ar dreftadaeth.
- **Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru** (CBHC), sydd hefyd â rôl genedlaethol flaenllaw o ran hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth archeolegol, adeiledig a morwrol Cymru. Mae'n cynnal ac yn datblygu Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, sy'n darparu ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth ar gyfer rhai sy'n gwneud penderfyniadau corfforedig a llywodraethol, unigolion a sefydliadau sy'n gysylltiedig â rheoli treftadaeth a'r cyhoedd yn gyffredinol.

  Mae **Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys** (CPAT) yn rhoi safbwynt ranbarthol ar faterion sy'n effeithio ar dreftadaeth archeolegol. Un o'i phrif swyddogaethau yw gweithio gyda'r awdurdod lleol i ddiogelu treftadaeth, yn arbennig mewn perthynas â gwaith adeiladu arfaethedig a datblygiadau eraill. Mae'n cynnal Cofrestr Safleoedd a Henebion yr ardal i gefnogi'r gwaith hwn. Mae CPAT hefyd yn ymwneud â mentrau ehangach, megis Tir Gofal, sy'n cydnabod ac yn diogelu tirweddau hanesyddol, a'r Gofrestr Tirweddau Hanesyddol (ar y cyd â CADW a Chyngor Cefn Gwlad Cymru).
- **Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru** a **Llyfrgell Genedlaethol Cymru.** Nid oes gan yr un ohonynt bresenoldeb corfforol yn y fwrdeistref sirol, fodd bynnag mae gan AOCC bartneriaeth ag Amgueddfa'r Fwrdeistref Sirol dan gynllun 'Cyfoeth Cymru Gyfan', ac mae'r ddau'n ymroddedig i sicrhau yr hwylusir mynediad lleol i'w casgliadau a gwasanaethau o ganlyniad i brosiect adnewyddu Amgueddfa'r Fwrdeistref Sirol.

Ar lefel leol, nid yn unig fydd y Strategaeth Treftadaeth yn cefnogi'r Strategaeth Gymunedol, *Wrecsam o'r Newydd*, ond hefyd:

- Strategaethau'r Cyngor gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â chadwraeth gynllunio, datblygiad economaidd a chefn gwlad sy'n cydnabod pwysigrwydd ein hamgylchedd adeiledig a naturiol fel sail ar gyfer dyfodol ffyniannus a chynaliadwy gydag ansawdd bywyd uchel i'n trigolion.
- Strategaethau eraill y Cyngor megis y rheini ar gyfer pobl hŷn, cydlyniad cymunedol ac iechyd a lles sy'n hyrwyddo gweithgareddau sy'n cryfhau'n cymunedau ac sy'n gallu tynnu ar dreftadaeth gyfoethog Wrecsam wrth eu gwaith.
- Strategaethau'r partneriaethau adfywiad cymunedol lleol megis Partneriaeth Cymunedol Dyffryn Dyfrdwy y mae ei chynlluniau'n cynnwys mentrau treftadaeth.
- Strategaethau i ddatblygu dysgu gydol oes, hyfforddiant a sgiliau personol gan gynnwys partneriaid allweddol megis NEWI, Coleg Iâl ac ysgolion.

- Cynlluniau a rhaglenni gweithgareddau amrywiaeth o gymdeithasau cymunedol sy'n ymwneud yn bennaf â gweithgareddau sy'n ymwneud â hanes lleol a threftadaeth, neu yn y gweithgareddau cymunedol ehangach sy'n tynnu ar dreftadaeth Wrecsam.

Bydd ein Strategaeth Treftadaeth, yn ei thro, yn darparu arolwg strategol ar gyfer blaenoriaethu a rheoli o fewn y sector treftadaeth ei hun ac yn darparu sail gyffredin ar gyfer gweithgarwch i bawb sy'n gweithio ym maes treftadaeth yn y fwrdeistref sirol.

3. Ein man cychwyn

3.1 Cryfderau a gwendidau ein treftadaeth

Os yw'r strategaeth am ddangos ffordd realistig ac effeithiol i'n treftadaeth symud yn ei blaen, rhaid iddi ddechrau trwy ddeall lle'r ydym ni nawr. Mae nifer o unigolion a chymdeithasau eisoes wedi cyfrannu at y gwaith ymchwil ac ymgynghori gwreiddiol ar gyfer y strategaeth hon a chrynhoir canlyniadau'r gwaith hwn isod.

Gallwn nodi rhai cryfderau sylweddol yn ein sector treftadaeth, ei safleoedd, ei gyfleusterau a'i weithgareddau a gwasanaethau cysylltiedig, fodd bynnag ceir rhai gwendidau hefyd.

Er enghraifft, mae **cryfderau'n** treftadaeth yn cynnwys:

- Cytundeb eang ar hynodrwydd ac ehangder treftadaeth ac arteffactau Wrecsam, ansawdd ei thirweddau hanesyddol, ein treftadaeth grefyddol, pwysigrwydd ac effaith lleoliad Wrecsam fel tref ffiniol a chroesffordd.
- Safbwyntiau cydlynol am bwysigrwydd treftadaeth i'r gymuned, gwerthfawrogiad o ymroddiad y Cyngor a ffurfiad rhai partneriaethau pwysig.
- Grwpiau hanes a threftadaeth lleol gweithgar sydd wedi'u lleoli o fewn ein cymunedau, sy'n gyfrifol am lawer o waith cofnodi, cadw a hyrwyddo'n treftadaeth nodedig.
- Arfer da o ran hyrwyddo a defnyddio'n treftadaeth gan gynnwys casgliadau yn yr amgueddfa sy'n arbenigo'n benodol mewn, er enghraifft, diwydiant a phêl-droed lleol, Rhwydwaith yr Eglwysi Agored ac ysgolion lleol sy'n gwneud gwaith sy'n tynnu ar ein treftadaeth leol.
- Gwerthfawrogiad o werth treftadaeth a'r cyfraniad y gall ei wneud i gefnogi twristiaeth ac adfywiad.
- Atyniad siopau a strydoedd hŷn Wrecsam.
- Strategaeth Adeiladau mewn Perygl y Cyngor sy'n ceisio cadw rhai o'n hadeiladau hanesyddol mwyaf arbennig. Hon yw un o'r strategaethau cyntaf i'w chreu yng Nghymru. Cyflenwir y strategaeth hon gan restr ddiweddar o dros 1,000 o adeiladau rhestredig a 22 ardal gadwraeth, ynghyd â rhaglen barhaus sy'n dynodi ardaloedd cadwraeth.

Rydym hefyd wedi nodi rhai **gwendidau** yn ein treftadaeth:

- Mae adnoddau a glustnodwyd yn benodol ar gyfer treftadaeth yn brin; mae cyllidebau cyllid craidd i gefnogi gwasanaethau a safleoedd presennol yn rhy fach i'w marchnata a'u hyrwyddo'n eang; nid oes nawdd ar gyfer camau datblygu dechreuol prosiectau nac archwiliadau archeolegol; nid oes digon o gyfalaf i symud mentrau newydd ymlaen i'n galluogi i gadw a dehongli safleoedd pwysig; tîm craidd bychan o staff gwasanaethau treftadaeth; mae rhai pentrefi trefol ac adeiladau'n parhau i fod mewn perygl o ddadfeilio.
- Mae treftadaeth yn cael ei hystyried yn flaenoriaeth isel yn y broses gynllunio a datblygu.

- Mae natur gyfnodol a'r galw isel am sgiliau a deunyddiau adeiladu traddodiadol yn annog y diwydiant adeiladu i beidio â buddsoddi mewn arbenigedd a'i ddatblygu.
- Diffyg cronfa 'ailgylchredol' i drwsio a gwerthu adeiladau rhestredig.

3.2 Cyfleoedd a bygythiadau i'n treftadaeth

Mae'n sector treftadaeth hefyd yn wynebu cyfleoedd a bygythiadau fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad. Mae'r **cyfleoedd** yn cynnwys:

- Dathlu deucanmlwyddiant traphont ddŵr Pontcysyllte a hyrwyddo cais i'w dynodi fel Safle Treftadaeth y Byd.
- Mae nifer sylweddol o brosiectau adfywiad a datblygiad economaidd ar y gweill sy'n anelu at wella a sicrhau defnydd cynaliadwy o adeiladau hanesyddol gan gynnwys Menter Treftadaeth Treflun Cefn Mawr ac adnewyddiad Amgueddfa'r Fwrdeistref Sirol.
- Mae cyfleoedd ar gyfer gwell cydweithio, gan gynnwys rhwng grwpiau treftadaeth cymunedol lleol, gydag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (AOCC), Llyfrgell Genedlaethol Cymru a chyda'n hardaloedd cyfagos, yn ogystal â mwy o gydweithio rhwng adrannau'r Cyngor i gefnogi materion treftadaeth.
- Rydym eisoes yn ymchwilio i gyfleoedd i gysylltu prosiectau treftadaeth â phrosiectau addysg, hyfforddiant a dysgu gydol oes, byw'n iach, datblygiad cymunedol a dathlu amrywiaeth, gan gynnwys ein cymunedau Cymraeg, gwaith rhyng-genhedlaeth a thwristiaeth sy'n seiliedig yn y gymuned.

Ymysg y **bygythiadau** y mae'n rhaid i'n strategaeth eu hwynebu'n mae:

- Cystadleuaeth ar gyfer adnoddau gan flaenoriaethau cymunedol a gofynion statudol eraill a rhaglenni ariannu newydd cenedlaethol a'r Undeb Ewropeaidd.
- Methu â bodloni gofynion y 'diwylliant perfformio' a thargedau a osodir yn allanol a'r peryglon o feddwl yn rhy fyrdymor am fanteision posibl ein treftadaeth.
- Colli treftadaeth ranedig ddiweddar ein cymuned yn fuan o ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio, afleoliad pobl ifanc o'u treftadaeth eu hunain a methu â chydnabod a chysylltu â diwylliannau a threftadaeth y cymunedau mewnfudol amrywiol sydd bellach yn rhan o'n poblogaeth.
- Cystadleuaeth am dwristiaid ac ymwelwyr hamdden gan ardaloedd cyfagos - gall rhai ohonynt gynnig treftadaeth enwog a sefydledig.
- Anallu i ennyn diddordeb y cyhoedd prysur a deallus mewn ymweld â'n treftadaeth leol a'i chefnogi.

4. Gwneud Treftadaeth yn Bwnc o Bwys – Strategaeth Treftadaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam

4.1 Ein gweledigaeth a'n hamcanion ar gyfer treftadaeth

Mae nifer o bobl a chymdeithasau o fewn ein cymunedau eisoes yn cydnabod pwysigrwydd ein treftadaeth. Rydym am i'n treftadaeth fod o bwys i bawb ac iddi wneud gwahaniaeth i'w bywydau.

Ein **gweledigaeth ar gyfer treftadaeth** yn Wrecsam yw:

> **Galluogi i wir botensial ein treftadaeth ffynnu fel y gall wneud y cyfraniad gorau posibl a chyfoethogi pob agwedd ar fywyd y fwrdeistref sirol, er budd trigolion lleol ac ymwelwyr.**

Ein prif amcanion yw ceisio dyfodol cynaliadwy ar gyfer cymaint o safleoedd treftadaeth, cyfleusterau, arteffactau a gweithgareddau ag sy'n bosibl a thrwy wneud hynny, i gefnogi blaenoriaethau cymunedol. Amlinellir y blaenoriaethau hyn yn y Strategaeth Gymunedol, *Wrecsam o'r Newydd*, ar gyfer y cyfnod hyd 2020 i sefydlu Wrecsam fel:

- **Lle diogel** - 'i gael cymunedau lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel sydd â lefelau isel o drosedd ac anhrefn'.
- **Lle gofalgar ac iach** – 'creu cymuned iachach drwy hyrwyddo a chefnogi ffyrdd iachach o fyw ac i ddarparu gwasanaethau sy'n cefnogi'r bobl hynny sydd ag anghenion iechyd neu ofal'.
- **Lle y gwerthfawrogir plant a phobl ifanc** – 'darparu fframwaith fel y gall ein pobl ifanc fod ag uchelgeisiau a gwireddu eu breuddwydion'.
- **Lle sy'n ffynnu'n economaidd** – 'creu cyfleoedd economaidd cynaliadwy i bobl leol'.
- **Lle sy'n gofalu am yr amgylchedd** – 'gwarchod a chyfoethogi'n hamgylchedd i genedlaethau'r dyfodol'.
- **Lle sy'n gwerthfawrogi dysgu** - 'darparu addysg, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu rhagorol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam i bobl o bob oedran'.

4.2 Gwneud Treftadaeth yn Bwnc o Bwys – ein Blaenoriaethau Allweddol

Os ydym am wneud treftadaeth yn bwnc o bwys, mae **pedair blaenoriaeth** ar gyfer ein strategaeth. Rhaid i ni geisio:

Blaenoriaeth 1 Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n treftadaeth a sut y gall gyfrannu at fywydau pawb

Yn gyntaf oll, rhaid i bawb yn ein cymuned gydnabod ein treftadaeth. Nid yn unig y bydd ehangu eu dealltwriaeth o dreftadaeth a'u hymglymiad wrthi'n helpu i gadw

treftadaeth er budd cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol, ond bydd hefyd yn galluogi ei photensial i gefnogi blaenoriaethau'r gymuned ac i gael defnydd llawn ohoni.

Blaenoriaeth 2 Atgyfnerthu'r partneriaethau a'r adnoddau sy'n cefnogi treftadaeth

Mae rhaid i'n treftadaeth fod o bwys i'n partneriaid a'n noddwyr. Mae adnoddau'n fater tyngedfennol o ran cynnal ein treftadaeth ac mae partneriaethau'n holl bwysig o ran dod o hyd i ddyfodol cynaliadwy ar gyfer asedau a gweithgareddau treftadaeth ac ymestyn mynediad at adnoddau, boed y rheini'n ddynol neu'n ariannol.

Blaenoriaeth 3 Sicrhau bod treftadaeth yn chwarae rhan lawn wrth gryfhau ein cymunedau

Mae treftadaeth yn berthnasol i bob cymuned. Gall dealltwriaeth ac ymglymiad gweithgar wrth dreftadaeth helpu i feithrin gwerthfawrogiad o bwy ydym ac o le y daethom a helpu i ddathlu'r gymuned gynyddol amrywiol a dwyieithog yr ydym yn ei chreu ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Rhaid i'n strategaeth chwarae rhan lawn hefyd wrth fynd i'r afael â'r afleoliadau, y rhaniadau a'r gwaharddiad cymdeithasol y mae nifer o gymunedau yn eu profi.

Blaenoriaeth 4 Sicrhau y cedwir ein treftadaeth er budd cenedlaethau'r dyfodol

Mae olion ein gorffennol yn adnodd cyfyngedig ac anadnewyddadwy sydd dan fygythiad parhaus p'un a yw hynny o ganlyniad i brosesau naturiol neu ymyrraeth ddynol. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn nodi'r hyn sy'n bwysig i ni ei gadw ac yna sicrhau y cedwir yr olion hyn drwy'r broses gynllunio neu drwy gadwraeth uniongyrchol i genhedloedd y dyfodol eu mwynhau ac elwa arnynt.

4.3 Gwneud Treftadaeth yn Bwnc o Bwys – Ein hargymhellion allweddol ar gyfer gwella

I wneud treftadaeth yn bwnc o bwys, rhaid i'n holl fudd-ddeiliaid ganolbwyntio ar nifer o feysydd gwella dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r strategaeth yn amlinellu 15 o argymhellion allweddol a fydd yn arwain y gwelliannau hyn. Bydd angen cydweithio i weithredu'r holl argymhellion hyn, o fewn y Cyngor ac ar draws cymdeithasau yn y sectorau cyhoeddus, preifat, nid er elw a'r sectorau cymunedol sy'n gysylltiedig â threftadaeth.

Blaenoriaeth 1 Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n treftadaeth a sut y gall gyfrannu at fywydau pawb

Argymhelliad 1 Sefydlu rhaglen a fydd yn hybu proffil treftadaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Argymhelliad 2 Cydlynu cysylltiadau TGCh rhwng y Cyngor, gweithredwyr treftadaeth eraill a sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn y gymuned a'r wasg leol (gan gynnwys y BBC) i hwyluso mynediad at wybodaeth am dreftadaeth leol i drigolion ac ymwelwyr â'r fwrdeistref sirol.

Argymhelliad 3 Hyrwyddo mynediad corfforol a deallusol cynaliadwy i asedau treftadaeth lleol - p'un a ydynt yn gofebion, yn ddeunyddiau archifol neu'n arteffactau a sicrhau y ceir dehongliad cywir o dreftadaeth drwy hyrwyddo gweithgareddau ymchwilio gwreiddiol.

Blaenoriaeth 2 Cryfhau'r partneriaethau a'r adnoddau sy'n cefnogi treftadaeth

Argymhelliad 4 Dylai'r Cyngor weithio gyda chymdeithasau cymunedol i atgyfnerthu'r rhwydweithio rhwng cymdeithasau treftadaeth cymunedol a'u gallu i weithio gyda'u cymunedau lleol.

Argymhelliad 5 Dylai'r Cyngor hyrwyddo cynllunio a marchnata asedau a gweithgareddau treftadaeth lleol ar y cyd rhwng gweithredwyr treftadaeth. Gallai hyn dynnu ar fodel y Rhwydwaith Eglwysi Agored i greu dulliau cynaliadwy o hyrwyddo cyfleoedd treftadaeth sydd fel arall ar raddfa fach ac wedi'u gwasgaru a chysylltu'r cyfleoedd hyn â'u cymunedau lleol.

Argymhelliad 6 Adeiladu ar yr arfer da sydd eisoes wedi'i sefydlu o fewn rhaglenni adfywiad economaidd a gwledig i gysylltu datblygiad treftadaeth â chyfleoedd gwaith a hyfforddiant, twristiaeth gynaliadwy a mentrau amgylcheddol.

Blaenoriaeth 3 Sicrhau bod treftadaeth yn chwarae rhan lawn wrth gryfhau ein cymunedau

Argymhelliad 7 Darparu cyswllt rhwng y Cyngor, cyrff addysg a darparwyr treftadaeth i ddatblygu mwy o ddefnydd o adnoddau treftadaeth lleol ymarferol a dynol yng nghwricwlwm ffurfiol yr ysgol ac mewn rhaglenni dysgu gydol oes, cymunedol a theuluol gan hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol.

Argymhelliad 8 Mynd i'r afael â'r diffyg sgiliau trwy ddod â sefydliadau datblygiad economaidd, adfywiad, cynllunio cadwraeth, addysg, dysgu a hyfforddiant at ei gilydd i ystyried datblygu sgiliau ar gyfer y sector treftadaeth, gan gynnwys ar gyfer cymdeithasau cymunedol a gwirfoddolwyr ac i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen o ran technegau adeiladu traddodiadol ym maes cadwraeth a phrosiectau eraill.

Argymhelliad 9 Dylai adrannau'r Cyngor sy'n hyrwyddo datblygiad cymunedol a buddion pobl ifanc a phobl hŷn weithio gyda chyrff addysg a dysgu a sefydliadau eraill i gydlynu rhaglenni sy'n:

- Cydnabod a dathlu treftadaeth nodedig cymunedau Bwrdeistref Sirol Wrecsam gan gynnwys ei chymuned Gymraeg a'r rheini sydd newydd gyrraedd, yn ogystal â chymunedau sefydledig.
- Cefnogi cymunedau lleol i archwilio eu treftadaeth eu hunain, yn enwedig eu profiad cymunedol diweddar o dreftadaeth ddiwydiannol drwy hanes llafar ac ymagweddau eraill.
- Meithrin cysylltiadau rhyng-genhedlaeth o fewn cymunedau drwy gynnwys pobl hŷn, grwpiau cymunedol lleol gydag ysgolion a phobl ifanc yn y broses o archwilio hanes teuluol, lleol a chymunedol.

Blaenoriaeth 4 Sicrhau y cedwir ein treftadaeth er budd cenedlaethau'r dyfodol

Argymhelliad 10 Parhau i weithredu'r polisi ar gyfer sicrhau bod prosesau cynllunio a datblygu'n ceisio dod o hyd i dddefnyddiau eraill a chynaliadwy ar gyfer adeiladau hanesyddol yn hytrach na'u dymchwel.

Argymhelliad 11 Sicrhau bod y wybodaeth sylfaenol am ein treftadaeth sy'n cael ei chadw ar y Cofnod Safleoedd a Chofebion yn ddiweddar ac yr adolygir y Gofrestr Henebion er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu gwybodaeth bresennol.

Argymhelliad 12 Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i sefydlu rhaglen dreigl mewn perthynas â chadwraeth cofebion yn y fwrdeistref sirol.

Argymhelliad 13 Ymgymryd â rhaglen gam wrth gam i uwchraddio isadeiledd ffisegol y Cyngor Bwrdeistref Sirol mewn perthynas â darpariaeth amgueddfeydd ac archifau'n unol â safonau cenedlaethol.

Argymhelliad 14 Parhau i ddatblygu a chadw casgliadau sy'n adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol Bwrdeistref Sirol Wrecsam a sicrhau y cânt eu cynnal yn unol â safonau cenedlaethol.

Argymhelliad 15 Gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill, sefydliadau cenedlaethol a chyrff treftadaeth fel y gellir dod â chasgliadau amgueddfeydd ac archifau sy'n gysylltiedig â Wrecsam ac sy'n cael eu cadw y tu allan i'r fwrdeistref sirol ar hyn o bryd, yn ôl i'r fwrdeistref sirol.

4.4 Gwneud Treftadaeth yn Bwnc o Bwys – Crynodeb o'r argymhellion

Amlinellir yr argymhellion yn Atodiad 1 i ddangos sut maent yn cefnogi blaenoriaethau penodol y Strategaeth Gymunedol, fel y'i mynegwyd yn *Wrecsam o'r Newydd*.

4.4 Y broses monitro ac adolygu

Atodiad 2 yw'r cynllun sy'n dangos pa gamau a gymerir yn y flwyddyn ariannol gyfredol i helpu i ddarparu'r strategaeth.

Datblygir cynllun gweithredu ar gyfer darpariaeth y Strategaeth Treftadaeth yn ystod y blynyddoedd dilynol drwy ymgynghori â darparwyr treftadaeth eraill, cymdeithasau treftadaeth cymunedol a'r cyhoedd.

Caiff cynnydd yn erbyn y camau a nodir ei fonitro a'i adolygu'n flynyddol.